COFNODION YR UNFED AR HUGAIN GYFARFOD BLYNYDDOL O GYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 9FED MAI 2016 AM 6.30 p.m.

YN BRESENNOL: Y Maer sy'n Ymddeol, Y Cynghorydd Mrs S. Roy
Y Maer, Y Cynghorydd John Davies
Cynghorwyr: W Bagnall, Mrs G Baker; N Bastow; Mrs E Edwards; R Foreman; D Griffiths; Mrs L Griffiths; Mrs M Jones; A Khan; A Mason; Mrs H. Meredith; A Pearson; J. Pearson; C Perry; Mrs V Perry; P Richards; Mrs V Smith Y.H.; S Taylor; G Ward; S Williams; C Wood

SWYDDOG Mrs C. J. Earley (Clerc y Dref)

HEFYD YN BRESENNOL: Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol
Gwesteion Blaenllaw a'r Cyhoedd

1/16 CROESO:

Croesawyd yr Aelodau a'r Gwesteion Blaenllaw i unfed ar hugain gyfarfod blynyddol Cyngor Tref Bae Colwyn gan y Maer sy'n Ymddeol, y Cynghorydd Mrs S. Roy ac estynnodd gwahoddiad i Glerc y Dref gwneud y cyhoeddiadau angenrheidiol.

2/16 ETHOL MAER:

Galwyd am enwebiadau ar gyfer Swydd Maer y Dref am y flwyddyn drefol newydd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs V. Smith Y.H. enwebiad y Cynghorydd John Davies i fod yn Faer y Dref am y flwyddyn 2016-17. Eiliwyd yr enwebiad gan y Cynghorydd S. Taylor.

Gan nad oedd enwebiadau eraill, fe etholwyd y Cynghorydd John Davies yn unfrydol i fod yn Faer y Dref am y flwyddyn drefol 2016-17 sy'n dod.

Yna fe arwisgwyd y Cynghorydd Davies gyda Chadwyn y Swydd, cymerodd y Gadair a llofnododd y Datganiad o Dderbyn y Swydd a chyd-arwyddwyd gan y Clerc fel Swyddog Priodol y Cyngor.

Rhoddodd y Maer anerchiad byr ar lafar, gan ddiolch i'w gyd-aelodau am yr hyder a roddwyd ynddo a dywedodd bod ei wraig Mrs Ann Davies wedi cytuno i fod yn Faeres iddo ac mai'r Elusennau y bydd am gefnogi yn ei dymor yn y Swydd oedd Ambiwlans Awyr Cymru a Thŷ Gobaith.

3/16 ETHOL DIRPRWY FAER:

Galwodd y Maer am enwebiadau ar gyfer y Swydd o Ddirprwy Faer.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Paul Richards enwebiad y Cynghorydd Jeff Pearson i fod yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Drefol sy'n dod. Eiliwyd yr enwebiad gan y Cynghorydd A. Pearson.

Gan nad oedd enwebiadau eraill, fe etholwyd y Cynghorydd Jeff Pearson yn Ddirprwy Faer am y Flwyddyn Drefol 2016-17 sy'n dod.

Arwisgwyd y Dirprwy Faer gyda Chadwyn y Swydd gan y Maer ac yna llofnododd y Cynghorydd Pearson y Datganiad o Dderbyn y Swydd a chyd-arwyddwyd gan y Clerc fel Swyddog Priodol y Cyngor.

Rhoddodd y Dirprwy Faer anerchiad byr ar lafar, gan ddiolch i'w gyd-aelodau am yr hyder a roddwyd ynddo. Dywedodd wrth yr aelodau bod ei wraig, Kathleen wedi cytuno i fod yn Gonsort iddo.

4/16 PLEIDLAIS O DDIOLCH:

Cynigodd y Cynghorydd Mrs V. Perry bleidlais o ddiolch i'r Cynghorydd Mrs S. Roy, y Cyn Maer, a chyfeiriodd at ei gwaith caled yn ystod ei thymor yn y Swydd. Eiliwyd y bleidlais o ddiolch gan y Cynghorydd S. Williams. Cyflwynwyd Tlws y Cyn Maer i'r Cynghorydd Mrs Roy ag anrheg fechan i'w Consort, Cynghorydd Merrill Jones, fel arwydd o werthfawrogiad y Cyngor.

Rhoddodd y Cyn Maer anerchiad ar lafar, gan edrych yn ôl ar rhai o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn a aeth heibio gan ddatgan ei diolch i'r rhai a gynorthwyodd i godi arian tuag at ei helusennau. Diolchodd hefyd i'w chyd-aelodau ag i staff y Cyngor Tref am eu cefnogaeth a'u cymorth yn ystod ei blwyddyn yn y Swydd.

5/16 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y gwesteion a wahoddwyd D. Jones AS, D Millar AC, Maer a Maeres Abergele, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cynghorydd Sir C. Carlisle a Bill Armstroing-Beattie, Myfyriwr Ymgynghorol.

6/16 DATGAN CYSYLLTIADAU:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

7/16 PWYLLGORAU:

Penderfynwyd ail-benodi ddau bwyllgor sefydlog y Cyngor; y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a'r Pwyllgor Polisi a Chyllid, fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

8/16 COD YMDDYGIAD:

Penderfynwyd mabwysiadu'r Model Cod Ymddygiad newydd, fel y dosbarthwyd i'r aelodau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor.

9/16 CYNRYCHIOLWYR AR FUDIADAU ALLANOL:

Penderfynwyd gohirio ailbenodiad ffurfiol y cynrychiolwyr ar fudiadau allanol tan gyfarfod nesaf y Cyngor sydd i'w gynnal ar 6ed Mehefin 2016.

10/16 GALWADAU'R MAER:

Cyflwynodd y Clerc y rhestr o Alwadau'r Maer am y Flwyddyn Drefol 2015-16, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r rhestr o alwadau a gyflwynwyd fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'B' sydd gyda hwn.

11/16 RHESTR PRESENOLDEB Y CYNGHORWYR:

Cyflwynodd y Clerc rhestr presenoldeb y Cynghorwyr am y Flwyddyn Drefol 2015-16, er gwybodaeth.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r rhestr presenoldeb a gyflwynwyd fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'C' sydd gyda hwn.

12/16 CAU'R CYFARFOD:

Daeth y Maer a'r cyfarfod i ben a gofynnodd i'r gwesteion parhau i eistedd tra bo ffotograff swyddogol o'r Cyngor yn cael ei gymryd, cyn ymuno ag ef am luniaeth ysgafn yn yr Ystafell Bwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 p.m.

……Cadeirydd

MINUTES OF THE TWENTY FIRST ANNUAL MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30 P.M. IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY ON MONDAY 9TH MAY 2016

PRESENT: The Retiring Mayor, Cllr Mrs S Roy
The Mayor, Cllr John Davies
Cllrs: W Bagnall, Mrs G Baker; N Bastow; Mrs E Edwards; R Foreman; D Griffiths; Mrs L Griffiths; Mrs M Jones; A Khan; A Mason; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; C Perry; Mrs V Perry; P Richards; Mrs V Smith J.P.; S Taylor; G Ward; S Williams; C Wood

OFFICER: Mrs C J Earley (Town Clerk)

IN ATTENDANCE: Mrs R Dudley, Assistant Clerk,
Miss L Austin, Administrative Assistant
Distinguished Guests and Members of the Public

1/13 WELCOME:

The Retiring Mayor, Cllr Mrs S Roy, welcomed Members and Guests to the twenty first Annual Meeting of the Bay of Colwyn Town Council and invited the Town Clerk to make the necessary housekeeping announcements.

2/13 ELECTION OF MAYOR:

Nominations were called for the Office of Town Mayor for the new municipal year.

Councillor Mrs V Smith J.P. proposed Councillor John Davies as Town Mayor for the year 2016-17. Councillor S Taylor seconded the nomination.

There being no further nominations, Councillor John Davies was unanimously elected as Town Mayor for the ensuing municipal year 2016-17.

Councillor Davies was invested with the Chain of Office, took the Chair and made and subscribed his Declaration of Acceptance of Office, which was countersigned by the Clerk as Proper Officer of the Council.

The Mayor then gave a brief verbal address, thanking his fellow members for the confidence placed in him and informing the meeting that his wife Mrs Ann Davies had agreed to act as his Mayoress and that his chosen Charities for his year in Office would be Wales Air Ambulance and Ty Gobaith.

3/13 ELECTION OF DEPUTY MAYOR:

The Mayor called for nominations for the Office of Deputy Mayor.

Councillor Paul Richards nominated Councillor Jeff Pearson as Deputy Town Mayor for the ensuing Municipal Year. Councillor A Pearson seconded the nomination.

There being no further nominations, Councillor Jeff Pearson was duly elected as Deputy Mayor for the ensuing Municipal Year 2016-17.

The Mayor invested the Deputy Mayor with the Chain of Office and Councillor Pearson made and subscribed his Declaration of Acceptance of Office, which was countersigned by the Clerk, as Proper Officer of the Council.

The Deputy Mayor gave a brief verbal address, thanking his fellow members for the confidence placed in him. He informed the meeting that his wife, Kathleen, had kindly agreed to act as his Mayoress.

4/13 VOTE OF THANKS:

Councillor Mrs V Perry proposed a vote of thanks to Mrs S Roy, Immediate Past Mayor, making reference to her hard work during her year in Office. Councillor S Williams seconded the vote of thanks. The Mayor then presented Cllr Mrs Roy with the Past Mayor's Jewel, and her Consort, Cllr Merrill Jones, with a small gift, as a token of the appreciation of the Council.

The Immediate Past Mayor gave a verbal address, reflecting on some of the highlights of the past year, and paying thanks to all those that had assisted in raising funds for her Mayoral charities. Thanks were also expressed to her fellow Members and to the Town Council staff for their support and assistance during her year of office.

5/13 APOLOGIES FOR ABSENCE:

Apologies for absence were received from invited guests D Jones MP, D Millar AM, Mayor & Mayoress of Abergele, Chief Executive, Conwy CBC, County Councillor C Carlisle and Bill Armstrong-Beattie, Student Advisor.

6/13 DECLARATIONS OF INTEREST:

Members were reminded of the need to declare any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

7/13 COMMITTEES:

Resolved to re-appoint the two standing committees of the council; the General Purposes & Planning Committee and the Policy & Finance Committee, as detailed in Schedule 'A' attach

8/13 CODE OF CONDUCT:

Resolved to adopt the new Model Code of Conduct, as circulated to members at the last Council meeting.

9/13 REPRESENTATIVES ON OUTSIDE BODIES:

Resolved to defer the formal re-appointment of representatives on outside bodies to the next meeting of the Council, to be held on 6th June 2016.

10/13 MAYOR'S ENGAGEMENTS:

A list of the Mayor's Engagements for the Municipal Year 2015-16 was submitted by the Clerk, for information.

Resolved to receive and note the list of engagements, as detailed in Schedule 'B' attached.

11/13 COUNCILLORS' ATTENDANCE:

The clerk submitted, for information, a list of councillor's attendance for the municipal year 2015-16.

Resolved to receive and note the attendance list, as detailed in schedule 'C' attached.

12/13 CLOSE OF MEETING:

The Mayor closed the meeting and requested guests to remain seated whilst the formal Council photograph was taken, before joining him for light refreshments in the Committee Room.

The meeting closed at 7.10 pm

……. Chairman